# Clinig Casglu Data Glawcoma

### Beth yw'r Clinig Casglu Data Glawcoma (CCDG)?

Mae'r Clinig Casglu Data Glawcoma wedi ei staffio gan staff anfeddygol sydd wedi'u hyfforddi i gynnal y profion a'r ymchwiliadau y byddech yn eu cael mewn ymweliad glawcoma wyneb yn wyneb. Bydd arbenigwr glawcoma wedyn yn adolygu canlyniadau profion i gyd, yn penderfynu ar y ffordd orau o reoli eich cyflwr, a bydd yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am eich canlyniadau.

### Pa gleifion sy'n addas ar gyfer Clinig Casglu Data Glawcoma?

Yn ddelfrydol, cleifion y mae eu glawcoma yn sefydlog neu mewn perygl is o waethygu sy'n addas ar gyfer y clinig casglu data . Os bydd eich cyflwr yn newid ac angen eich adolygu'n amlach, byddwch yn cael apwyntiad i glinig i weld y meddyg, optometrydd, neu nyrs. Os nodir pryderon brys neu uniongyrchol, yna fe gewch eich adolygu gan feddyg ar yr un diwrnod.

### Cynllunio eich ymweliad â'r CCDG

Mae'r apwyntiad fel arfer yn para rhwng 30 a 60 munud. Cyn i chi gyrraedd y clinig:

- Cwblhewch yr holiadur amgaeedig am eich golwg, y dropiau rydych yn eu defnyddio a’ch iechyd cyffredinol a dewch ag ef gyda chi ar ddiwrnod yr apwyntiad.
- Efallai y byddi dropiau n cael eu rhoi yn eich llygaid i ymledu cannwyll y llygad. Gall yr effaith bara am ychydig oriau a phylu eich golwg dros dro. Ni ddylech yrru yn ystod y cyfnod hwn.
- Os ydych yn gwisgo lensys cyffwrdd ond mae gennych sbectol hefyd, gwisgwch y sbectol ar y diwrnod y dewch i'r CCDG. Os ydych yn gwisgo lensys cyffwrdd ac nid oes gennych sbectol, gwisgwch y lensys cyffwrdd ond dewch â

blwch lensys i'w ddefnyddio i gadw’ch lensys tra bo gwiriadau pwysedd llygaid yn digwydd.

-

**Beth sy’n digwydd yn ystod y clinig?**

Ar ôl i chi gyrraedd y clinig, bydd y canlynol yn digwydd:

- Gwirio eich golwg drwy ddarllen siart llythyrau.
- Gwirio eich maes golwg (golwg ymylol neu ochr) gyda phrawf maes golwg.
- Mesur pwysedd eich llygaid.
- Ffotograff a sgan cyfrifiadurol o'r nerf yng nghefn y llygad.
- Yna caiff eich canlyniadau eu hanfon at offthalmolegydd ymgynghorol i'w hadolygu.

**Beth yw manteision y clinig casglu data?**

- Mae'r clinig hwn yn defnyddio staff a gofod sydd ar gael i sicrhau nad yw pobl yn cael apwyntiadau diangen, nac yn cael eu cadw’n disgwyl yn hir, nac yn cael eu hapwyntiadau wedi'u canslo.
- Gallech gael eich rhyddhau yn dilyn y clinig hwn neu efallai y gallwn eich rhyddhau yn gynt.
- Mae amseroedd aros yn y clinig casglu data yn llawer byrrach
- Caiff yr holl brofion eu cynnal mewn un ymweliad â'r ysbyty
- Mae canlyniadau pob claf yn cael eu hadolygu gan arbenigwr glawcoma er mwyn sicrhau bod y glawcoma’n cael ei reoli yn y ffordd orau bosibl.

**Cwestiynau ychwanegol**

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am eich gofal, byddem yn argymell eich bod yn siarad â'r Nyrs Gyfrifol i ddechrau.

Os nad yw'r aelod staff perthnasol yn gallu helpu i ddatrys eich pryder, gallwch gysylltu â llinell gymorth Gwasanaethau Cleifion. Gallan nhw gysylltu ag adrannau yn yr ysbyty ar eich rhan, os na allwch chi wneud hynny.

**Sut i gysylltu â Gwasanaethau Cleifion:**

Rhif Ffôn: 01633 838516